

**Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru
Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2019**

<p>Yn Bresennol: Enid Roberts, Cartrefi Cymunedol Gwynedd (Cadeirydd) Lynne Evans (LE), Tai Gogledd Cymru (Is-gadeirydd)</p> <p>Elliw Llyr, Cyngor Sir Ynys Môn Arwel Jones, Cyngor Sir Ynys Môn Sheila Phillip, Cyngor Gwynedd Cynghorydd Liz Roberts, CBS Conwy Sam Parry, CBS Conwy Debbie Lambe, CBS Conwy Y Cyng. Bobby Feeley, Cyngor Sir Ddinbych</p>	<p>Claire Owen, Cyngor Sir Ddinbych Y Cynghorydd Joan Lowe, CBS Wreccsam Shirley Jones, CBS Wreccsam Jono Clarke, Gwasanaeth Prawf Wendy Hughes, Digartref Ynys Môn Neal Cockerton, Cyngor Sir y Fflint Andy Roberts, Clwyd Alyn Y Cynghorydd Bernie Attridge, Cyngor Sir y Fflint Lisa Pearson, Cyngor Sir y Fflint Rachel Pierce-Jones, Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol</p>
---	---

		Cam gweithredu
1.	Cyflwyniad a Chroeso	
	<p>Croesawyd Enid Roberts, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cymunedau a Chwsmeriaid yng Nghartrefi Cymunedol Gwynedd fel Cadeirydd newydd y Pwyllgor. Bydd Enid Roberts yn parhau fel cynrychiolydd Landlord ar y pwyllgor yn ogystal â Chadeirio. Diolch i Enid am dderbyn rôl y Cadeirydd.</p> <p>Diolchwyd i Lynne Evans am barhau i fod yn is-gadeirydd i'r Pwyllgor.</p> <p>Diolchwyd i Katie Clubb, y cyn gadeirydd ers Gorffennaf 2016 a dymunwyd yn dda i Katie yn ei rôl newydd yng Nghartrefi Conwy.</p> <p>Croesawyd Neal Cockerton, Prif Swyddog, Tai ac Asedau Sir y Fflint, Neal bellach yw'r dirprwy aelod ar y Pwyllgor ar gyfer Sir y Fflint (yn lle Katie Clubb) a chroesawyd Andy Roberts o Glwyd Alyn, a etholwyd yn Gynrychiolydd Darparwyr o Cymorth.</p> <p>Datgan cysylltiad – Dim</p>	
	Ymddiheuriadau	
	<p>Y Cynghorydd Alun Mummery, Cyngor Sir Ynys Môn Y Cynghorydd Craig ab Iago, Cyngor Gwynedd Arwel Wyn Owen (AO), Cyngor Gwynedd Abbe Harvey, Cyngor Sir Ddinbych Phil Forbes, Iechyd (Iechyd Meddwl) Gwenan Ellis, Cymdeithas Tai Eryri Gwynne Jones, Cartrefi Conwy Siwan Lloyd-Williams, Gisda Gareth Evans, Iechyd</p>	
2.	Cofnodion Blaenorol a Thabl o Gamau Gweithredu	
	<p>Cytunwyd ar y cofnodion fel cofnod cywir.</p> <p>Mae pob cam gweithredu wedi ei gwblhau, codwyd un cam gweithredu yn y cyfarfod:</p> <p><i>Rachel i gysylltu â Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r mater o 500 gair ar gyfer Adolygiad</i></p>	

	<p><i>Blynyddol y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol -</i></p> <p>Dyweddodd Rachel y bydd angen codi hyn ym mis Mawrth pan fydd Rachel yn mynychu'r cyfarfod Rhwydwaith Cydlynwyr Datblygu Rhanbarthol gyda Llywodraeth Cymru.</p>	
3.	Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Grant Tai Unigol	
	<p>Rhoddodd Lynne Evans ddiweddariad ar Ddiwrnod Datblygu Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl yr oedd wedi ei fynychu ddechrau Rhagfyr 2018. Roedd Cadeiryddion, Is Gadeiryddion a Chydlynwyr Datblygu Rhanbarthol i gyd wedi eu gwahodd i'r diwrnod datblygu hwn.</p> <p>Mynychodd llawer o bobl y digwyddiad a rhannwyd y diwrnod i grwpiau trafod, roedd yr holl bynciau'n ymwneud â'r Grant Tai Unigol ac edrychwyd ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Problemau a Heriau • Dyddiadau cau • Hen adran 180 • Strwythur Cefnogi Pobl • Beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd ddim yn gweithio'n dda – ar hyn o bryd <p>Nodwyd bod angen gwella cysylltiadau gyda byrddau rhanbarthol eraill ac ymgysylltiad â defnyddiwr gwasanaeth ar draws Cymru gyfan. Rhoddodd Lynne adborth ar yr arfer orau a'r gwaith mae Gogledd Cymru wedi ei gwblhau ar ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth – er enghraifft, y ddogfen Straeon Ein Pobl a'r holiadur ymgysylltu defnyddiwr gwasanaeth ar-lein.</p> <p>Soniwyd bod cydweithio gyda iechyd fel problem yn y rhan fwyaf o ranbarthau'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol.</p> <p>Y camau nesaf yw'r digwyddiadau ymgysylltu mae Llywodraeth Cymru yn eu cynnal, mae digwyddiad Gogledd Cymru ar 21 Chwefror a bydd Rachel yn ail-anfon y gwahoddiad, gofynnodd y Cadeirydd i holl aelodau'r Pwyllgor geisio mynychu hwn, mae'n bwysig ein bod yno mewn niferoedd er mwyn codi'r materion a fydd yn effeithio darpariaeth y Rhaglen Cefnogi Pobl ac yn benodol y mater o fformiwla newydd o ran aiddosbarthu'r grant. Roedd yr hen fformiwla aiddosbarthu yn niweidiol i holl Awdurdodau Lleol gogledd Cymru.</p> <p>Cododd Lynne y mater o'r fformiwla aiddosbarthu ar gyfer Gogledd Cymru, ac yn benodol yr effaith bydd hyn yn ei gael ar wasanaethau gwledig. Dywedodd Debbie bod adolygiad Anabledd Dysgu Gogledd Cymru allan ar gyfer ymgynghoriad ar hyn o bryd ar draws Gogledd Cymru, a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar y mater o Aiddosbarthu.</p> <p>Awgrymodd y Cyngorydd Attridge ein bod yn gwahodd y Gweinidog Tai newydd i gyfarfod Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol neu i gyfarfod gyda'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd er mwyn mynegi ein pryderon ar y mater o aiddosbarthu ac o bosib i baratoi achosion uniongyrchol o beth fyddai'n digwydd. Eisoed mae Gogledd Cymru wedi colli chwarter o'r grant oherwydd Aiddosbarthu.</p> <p>Croesawodd y Cadeirydd hyn a gofynnodd a oedd gan awdurdodau lleol unrhyw arbenigedd / gweithwyr gyda dealltwriaeth o ystadegau economaidd er mwyn cyflwyno gweledigaeth adeiladol i Lywodraeth Cymru. Ychwanegodd y Cadeirydd hefyd y dylai'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol geisio cael Aelodau'r Cynlluniad yn rhan o hyn a dangos yr effaith iddynt.</p> <p>Rachel i gwrdd gyda'r Cadeirydd i drafod ffordd ymlaen o'r awgrymiadau uchod. Bydd Rachel yn anfon holiadur at holl aelodau'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol</p>	<p>RPJ</p> <p>RPJ</p> <p>RPJ</p>

	er mwyn paratoi ar gyfer Digwyddiad Ymgysylltu 21 Chwefror ac mae Aiddosbarthu yn un o'r cwestiynau lle gall pob aelod gynnig eu hadborth i Rachel.	
4.	Cynllun Strategol Rhanbarthol – Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Flaenoriaethau ar gyfer 2019-20	
	<p>Diweddarodd Rachel ddrafft terfynol y cynllun a chyhoeddodd bod Llywodraeth Cymru wedi e-bostio yr wythnos hon yn gofyn i Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol ddiweddarau eu cynlluniau ac anfon e-bost at Lywodraeth Cymru erbyn 30 Ionawr i nodi bod hyn wedi ei wneud, nid oes angen y cynlluniau ar LIC os na fu newidiadau mawr iddynt. Dim newidiadau mawr i Ogledd Cymru.</p> <p>Rhannodd Rachel y newidiadau angenrheidiol fel:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Diwygio tabl ffigyrau'r Grantiau ar dudalen 3 2. Ychwanegu paragraff ar Strategaethau Digartrefedd Ieuenctid i'r adran trosolwg rhanbarthol 3. Ychwanegu Cynllun Gwariant Rhanbarthol <p>Rachel i wneud newidiadau ac ail anfon y Cynllun, sylwadau terfynol i'w hanfon at Rachel erbyn 30 Ionawr. Rachel i anfon y fersiwn mwyaf diweddar ddydd Mercher 23 Ionawr.</p>	<p>RPJ</p> <p>RPJ</p>
5.	Tai Yn Gyntaf – Diweddariad gan Beilot Conwy a Sir Ddinbych	
	<p>Dywedodd Debbie Lamb bod recriwtio wedi dechrau ar gyfer y swyddi ym mhrosiect peilot Tai Yn Gyntaf Conwy a Sir Ddinbych.</p> <p>Mae Rheolwr Tîm wedi ei recriwtio a bydd dau weithiwr achos yn cael eu recriwtio maes o law.</p> <p>Mae'r Bwrdd Prosiect wedi cwrdd ac mae eu cyfarfod nesaf ym mis Chwefror 2019.</p> <p>Bydd diweddariadau pellach yn cael eu darparu ym mhob cyfarfod.</p>	
6.	Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Holiadur Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth Ar-lein	
	<p>Cychwynnodd Rachel drwy arddangos yr adborth a dderbyniwyd gan yr holiadur a anfonwyd at holl Aelodau'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ddydd Gwener 11 Ionawr. Rachel i'w anfon eto.</p> <p>Diweddarodd Rachel yr Holiadur Ar-lein ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi derbyn gwasanaeth a ariennir gan Cefnogi Pobl a aeth yn fyw ddechrau Rhagfyr ac ar gyfer y prawf cychwynnol roedd cystadleuaeth ar gyfer talebau stryd fawr, ddaeth i ben ar 4 Ionawr – bydd y dadansoddiad data sydd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol fis Mawrth yn cynnwys y cyfnod hwn.</p> <p>Ychwanegodd Rachel:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae enillydd y gystadleuaeth wedi ei gyhoeddi • Derbyniwyd 140 o holiaduron • 74 wedi rhoi tro ar y gystadleuaeth • Niferoedd a gwblhawyd o bob ALI fel yr isod: <ul style="list-style-type: none"> ○ Conwy – 38 ○ Gwynedd – 37 ○ Wrecsam – 25 ○ Ynys Môn – 20 ○ Sir y Fflint – 10 ○ Sir Ddinbych – 6 • Roedd un cwestiwn yn gofyn a fyddai diddordeb gan y defnyddwyr gwasanaeth mewn digwyddiad Defnyddiwr Gwasanaeth Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ac o'r 134 a atebodd: 	RPJ

	<ul style="list-style-type: none"> ○ Dywedodd 54% Na ○ Roedd 16% yn ansicr ○ Dywedodd 28% Ie <p>Bydd Rachel yn cyflwyno'r drafft a'r dadansoddiad yng nghyfarfod nesaf Is Grŵp y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a bydd y cyflwyniad terfynol ym Mhwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol mis Mawrth. Bydd yr holl adborth a dderbynnir ar yr holiadur gan aelodau'r Pwyllgor Cydweithredu Rhanbarthol yn cael ei rannu a'i drafod yn Is Grŵp nesaf y Pwyllgor, roedd un sylwad yn cynnwys a ydym yn cynnwys enw'r Darparwr y tro nesaf?</p>	
7.	Fideo Astudiaeth Achos	
	<p>Mae Gorwel o Grŵp Cynefin wedi bod yn ddigon caredig i rannu'r fideo defnyddiwr gwasanaeth yma gyda'r Pwyllgor, mae'n brosiect ar gyfer pobl hŷn (55 oed a hŷn) ac mae'n brosiect lles ar ben yr hyn maent eisoes yn ei ddarparu. Dolen i'r fideo a gyflwynwyd i'r Pwyllgor isod:</p> <p>https://www.youtube.com/watch?v=oCAPnTvtf0w#action=share</p> <p>Ychwanegodd Enid bod Prifysgol Bangor yn cynnal cynhadledd aml genhedlaeth ar 11 Ebrill – bydd Rachel yn anfon gwahoddiad i bawb.</p>	RPJ
8.	Er gwybodaeth:	
	<p>Cynllun Gwariant Gogledd Cymru: Nid yw'r holl awdurdodau wedi anfon eu Cynlluniau Gwariant at Rachel felly ni all gyflwyno'r Cynllun Gwariant Rhanbarthol i'r Pwyllgor heddiw.</p> <p>Bydd yn cael ei anfon at aelodau'r pwyllgor sydd â phleidlais i'w gymeradwyo unwaith y bydd Rachel wedi casglu'r holl gynlluniau gwariant i'r templed Rhanbarthol.</p> <p>Grŵp Tasg a Gorffen Partneriaethau Gogledd Cymru: Llythyr gan Gyngor Wrecsam i bob bwrdd rhanbarthol yw Papur 3 a anfonwyd gyda phapurau'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol, wedi ei anfon at gadeirydd y Pwyllgor, mae Enid wedi ei gwahodd i'w cyfarfod nesaf (dyddiad i'w gadarnhau). Bydd Rachel yn ail anfon y llythyr felly os oes sylwadau pellach anfonwch nhw ymlaen at Rachel.</p>	RPJ
9.	Unrhyw fater arall	
	<p>Ehangu Gwasgariad - Pobl Sy'n Ceisio Lloches Anfonwyd sleidiau cyflwyno gan y Swyddfa Gartref gyda phapurau'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.</p> <p>Cyflwynodd Neal Cockerton, Sir y Fflint, yr eitem hon. Eisiau codi ymwybyddiaeth y Pwyllgor y gallai hyn gael peth effaith ar y rhaglen Cefnogi Pobl.</p> <p>Dywedodd Neal nad yw'r dewisiadau llety lle mae'r Swyddfa Gartref am osod rhai Ceiswyr Lloches yn Sir y Fflint yn addas, er enghraifft ym Mostyn, mae cludiant yn i'r ganolfan gyswllt yn Wrecsam yn gyfyngedig, mae'n ardal wledig iawn a chyfleusterau cyfyngedig. Mae Sir y Fflint wedi cynghori nad ydynt yn cefnogi'r dewis hwn.</p> <p>Dywedodd Neal bod rhai landlordiaid preifat yn gweld hyn fel cyfle i lenwi llefydd gwag ac yn anffodus nid yw rhai o'r ystafelloedd yn addas i Geisiwr Lloches.</p> <p>Dywedodd Sam Parry, Conwy, fod Conwy yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref ar brosiect peilot, fodd bynnag nid yw'r peilot wedi cychwyn yn y tair blynedd diwethaf</p>	

<p>oherwydd nad yw Clear Springs yn gallu dod o hyd i lety addas. Mae Conwy'n dal i fod wedi ymrwymo i hyn.</p> <p>Dywedwyd unwaith mae eiddo wedi ei ganfod, nid yw'r Swyddfa Gartref yn cefnogi mwyach a dyma pryd bydd yn straen ychwanegol ar raglenni fel Cefnogi Pobl. Ar hyn o bryd mae newid gan y Swyddfa Gartref i wasgaru.</p> <p>Mae Wreccsam yn ardal wasgaru ac ar unrhyw adeg gallent gael hyd at 160 o Geiswyr Lloches. Dywedodd Shirley Jones, Wreccsam, eu bod yn cael trafferth eu symud ymlaen unwaith maent wedi cael statws, cael hyd i lety addas, a bod cael lleoedd mewn ysgolion yn broblem. Angen rheoli disgwyliadau.</p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd i ni edrych ar y galw a chadw llygad yn agored am hyn pan fyddwn yn edrych ar y data rhanbarthol nesaf.</p> <p>Strwythur Llywodraethu: Gofynnodd Arwel Jones a ddylem roi Llywodraethu ar yr agenda nesaf neu weithio ar hyn cyn y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol nesaf?</p> <p>Dywedodd Rachel pan fynychodd Paul Webb y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol diwethaf ym mis Tachwedd, cododd Katie Clubb hyn bryd hynny a gofynnodd i Paul a ddylem gychwyn gwahodd swyddogion tai eraill o Awdurdodau Lleol a dywedodd "os ydym am fod o flaen y gâd mae fyny i ni".</p> <p>Rachel i weld beth mae Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol eraill wedi ei wneud o safbwynt yr aelodaeth. Rachel i'w roi ar yr agenda ar gyfer Is Grŵp nesaf y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.</p> <p>Trafodwyd hyn hefyd yn y cyfarfod Rhwydweithiau Gwybodaeth Cefnogi Pobl a Digartrefedd a bydd yn cael ei drafod yn y cyfarfod sydd wedi ei drefnu ar gyfer 21 Chwefror 2019.</p>	<p>RPJ</p>
--	-------------------

Table of actions for Regional Development Coordinator

Cam gweithredu	Statws
Rachel i ail anfon y gwahoddiad at bob aelod i'r digwyddiad Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a gynhelir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Grant Tai Unigol ar 21 Chwefror	Cwblhawyd
Rachel i wneud newidiadau terfynol i'r Cynllun Strategol Rhanbarthol a'i anfon at holl aelodau'r Pwyllgor ar 21 Ionawr gyda dyddiad cau 30 Ionawr ar gyfer yr ymatebion.	Cwblhawyd – anfonwyd ar 23 Ionawr
Rachel i ail-anfon y grynodedb o adborth Holiadur Defnyddiwr Gwasanaeth	Cwblhawyd
Rachel i ddadansoddi'r holiadur ar-lein ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a'i gyflwyno fel drafft i Is-Grŵp y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ac ar agenda'r Pwyllgor nesaf ym mis Mawrth.	Cwblhawyd
Rachel i anfon manylion Digwyddiad Aml Genedlaethol Prifysgol Bangor at yr holl aelodau	Cwblhawyd
Rachel i anfon Cynllun Gwariant Gogledd Cymru unwaith bydd yr holl Awdurdodau Lleol wedi ymateb.	
Rachel i ail-anfon llythyr Grŵp Tasg a Gorffen Partneriaeth Gogledd Cymru at yr holl aelodau – dylid anfon unrhyw sylwadau at Rachel er mwyn iddi eu cydlynu.	Cwblhawyd
Rachel i roi Strwythur Llywodraethu ar agenda'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ar gyfer yr Is-Grŵp nesaf.	